



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Griffith Jones
Heol yr Orsaf
San Clêr
Sir Gaerfyrddin
SA33 4BT**

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|-------------------|--|
| Rhagorol | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| Da | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| Digonol | Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella |
| Anfoddhaol | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2013

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Griffith Jones yn nhref fechan Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion y dref yn ogystal â nifer fechan a ddaw o'r ardaloedd cyfagos. Yn ystod yr arolygiad, roedd 266 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 35 plentyn oed meithrin oedd yn mynychu'n rhan amser.

Mae'r ysgol yn cynnwys dwy ffrwd iaith, gydag wyth dosbarth lle addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg, a thri dosbarth lle addysgir disgyblion trwy gyfrwng y Saesneg.

Yn ôl ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru, mae tua 42% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol yn nodi mai 31% o'r disgyblion sydd o aelwydydd lle'r Gymraeg yw'r brif iaith. Mae ychydig iawn o'r disgyblion o gefndir ethnig cymysg. Cynrychiola'r disgyblion yr ystod lawn o allu. Mae'r ysgol yn disgrifio'r ardal o ble daw'r disgyblion fel un sydd ddim yn llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd.

Yn ôl yr ysgol mae tua 10% o'r disgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd yn arwyddocaol is na ffigurau'r sir a Chymru gyfan. Mae'r ffigur hyn yn uwch nag ydoedd yn y blynyddoedd diweddar. Mae bron i 26% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion addysgol ychwanegol yr ysgol, sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mai, 2007. Apwyntiwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi, 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Griffith Jones yn 2012-2013 yw £3,366. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £2,878. Mae Ysgol Gynradd Griffith Jones yn safle 85 o'r 108 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

| | |
|---------------------------------------|-----------|
| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu hamser yn yr ysgol;
- bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn meddu ar agwedd bositif at ddysgu;
- profiadau dysgu ysgogol o ansawdd uchel, a staff addysgu, gyda chymorth staff ategol, yn cefnogi'r dysgu'n effeithiol;
- yr ysgol yn darparu amgylchedd dysgu hapus a gofalgarg; a bod
- ystod o bartneriaethau yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddeilliannau disgyblion.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gweledigaeth glir gan y pennaeth ar gyfer yr ysgol sy'n canolbwyntio'n briodol ar les disgyblion ac ar wella safonau;
- pob aelod o'r staff yn deall yn glir beth yw eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- gwybodaeth dda gan yr ysgol am ei chryfderau a'i gwendidau;
- pob aelod o staff yn cyfrnogi'n effeithiol mewn gweithgareddau sy'n gwella deilliannau disgyblion; a bod
- y corff llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn gweithredu'n briodol fel cyfeillion beirniadol.

Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifennu Cymraeg ail iaith

A2 Gwella cyflawniadau'r bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A3 Datblygu gweithdrefnau rheoli perfformiad ar gyfer y staff ategol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw dysgu blaenorol yn llwyddiannus a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Yn y ffrwd Saesneg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn Saesneg i lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Gwnânt ddefnydd llawn o'u medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm. Mae cyflwyniad gwaith y rhan fwyaf o ddisgyblion yn daclus a threfnus. Mae gwaith y rhan fwyaf yn dangos safonau da o ran cywirdeb iaith yn y Saesneg ynghyd â'r gallu i drefnu eu gwaith yn baragraffau ac atalnodi. Mae gwaith creadigol diddorol yn Saesneg sy'n cynnwys defnydd o arddull a geirfa briodol. Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n dda, ac mae gan y mwyafrif ohonynt eirfa eang a'r gallu i drafod amrywiaeth o destunau'n effeithiol ar lefel briodol.

Mewn Cymraeg ail iaith, mae'r rhan fwyaf yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoedran a'u gallu. Gall llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gynnal sgysiau ac ateb cwestiynau syml yn Gymraeg mewn pynciau eraill. Fodd bynnag, mae lleiafrif yn dal i wneud camgymeriadau wrth sillafu ac ysgrifennu Cymraeg ail iaith. Maent yn defnyddio gormod o daflenni gwaith ac mae hyn yn effeithio ar y cynnydd a wnânt yn eu gallu i ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn y ffrwd Gymraeg yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y ddwy iaith a gallant ddefnyddio'r medrau hynny'n briodol mewn pynciau eraill. Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus yn y ddwy iaith, a gall y rhan fwyaf ohonynt drafod eu gwaith yn aeddfed gyda disgyblion eraill ac oedolion. Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n hyderus, tra mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gallu ysgrifennu'n helaeth ac yn aeddfed mewn ystod o ffurfiau yn y ddwy iaith.

O oed ifanc iawn, mae'r disgyblion yn gwneud defnydd hynod effeithiol o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel offer recordio, cyfrifiaduron cludadwy a nifer o raglenni i gefnogi eu dysgu. Mae medrau rhifedd a meddwl y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion mwy abl a dawnus hefyd yn gwneud cynnydd da.

Yn 2012, roedd cyflawniadau'r disgyblion yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer medrau iaith Cymraeg, yn y

50% uchaf o ran medrau mathemategol ac yn y 50% isaf o ran medrau iaith Saesneg a phersonol. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deiliant disgwylidig yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru heblaw am y Gymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwylidig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn 2012 yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r tuedd yn gyffredinol ar i fyny dros y pedair blynedd ddiwethaf. Dros gyfnod, roedd cyflawniadau yn is na'r teulu ond yn uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf. O gymharu canlyniadau'r ysgol â chanlyniadau ysgolion tebyg o ran disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer y Gymraeg, yn y 50% uchaf ar gyfer Saesneg a mathemateg ac yn y 50% isaf o ran gwyddoniaeth. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r tueddiadau wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf.

Yn 2012, roedd y canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwylidig yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y ddwy iaith, yn is mewn mathemateg ac yn uwch mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, cyn hynny, yn gyffredinol, roedd y canrannau yn is na chyfartaledd y teulu.

Dros gyfnod o bedair blynedd, mae cyflawniadau'r merched yn arwyddocaol well na rhai'r bechgyn.

Lles: Da

Mae ymddygiad disgyblion yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Mae bron pob un yn cyfranogi'n gydwytodol mewn gwersi ac yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rheolaidd a ddarperir gan yr ysgol i ymarfer y corff. Mae llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn clybiau amrywiol ar ôl ysgol sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles a chodi eu hyder.

Mae canran presenoldeb disgyblion yn agos i'r cyfartaleddau cenedlaethol a'r teulu, er nad ydynt yn cymharu cystal â phresenoldeb ysgolion tebyg o ran cinio am ddim. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae disgyblion hŷn yn ymateb yn gadarnhaol i gyfrifoldebau. Maent yn meddu ar agweddau aeddfed at eu gwaith ac yn dangos parch a gofal am eraill. Mae'r disgyblion yn hynod falch o'u hysgol ac maent yn manteisio ar gyfleoedd priodol i fynegi barn drwy eu cyfraniad i weithgareddau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco.

Cyfranna'r disgyblion yn helaeth at waith elusennol drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn cydweithio gyda'r cyngor lleol i ddiweddarau gwybodaeth sydd ar fyrddau gwybodaeth y dref am hanes yr ardal a bywyd natur leol. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn effeithiol.

| |
|--|
| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? |
|--|

| |
|-----------|
| Da |
|-----------|

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod amrywiol a diddorol o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn ymateb yn dda i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen.

Mae medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a medrau meddwl yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio. Mae'r athrawon yn paratoi amrywiaeth o weithgareddau gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion, ac yn darparu i ddiwallu ac ymestyn y disgyblion mwyaf galluog, yn enwedig mewn gwaith ysgrifennu a mathemateg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf yn gadarn, ond nid oes digon o gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu Cymraeg ail iaith. Mae cyfleoedd amrywiol i'r disgyblion ddysgu am hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru ynghyd â chyfleoedd cyson i astudio'r ardal leol.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ym maes cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Anogir y disgyblion i fod yn ddinasyddion cyfrifol ac i chwarae rhan weithgar yn y gymuned leol ac o fewn y gymuned fyd-eang. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gasglu at elusennau, ailgylchu, defnyddio llai o ynni a dysgu am nwyddau masnach deg.

Addysgu: Da

Yn y rhan fwyaf o'r sesiynau effeithiol, ceir paratoi manwl, trefniadaeth glir, cyflwyniadau bywiog, holi treiddgar a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion weithio mewn paru a grwpiau. Mae'r berthynas waith gynnes sydd rhwng yr athrawon a'r disgyblion yn hybu rhyngweithio pwrpasol sy'n ysgogi'r dysgu. Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio'r staff ategol yn gynhyrchiol o fewn y dosbarthiadau ac mewn ystod o weithgareddau eraill ar draws yr ysgol.

Yn yr ychydig iawn o sesiynau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn canolbwyntio ar eu tasgau ac mae prinder o dasgau heriol ac ysgogol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd. Mae'r athrawon yn cynnig adborth manwl ar lafar ac yn ysgrifenedig sy'n cyfeirio'r disgyblion at adnabod eu camau nesaf. Mae strategaethau cadarn ar gyfer asesu ar gyfer dysgu sy'n galluogi disgyblion i fyfyr ar eu cynnydd eu hunain, asesu gwaith cyfoedion a gosod targedau ar gyfer gwelliant. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gosod a monitro eu targedau eu hunain ac yn gwybod beth i'w wneud i wella eu dysgu eu hunain.

Mae'r adroddiadau i rieni yn cynnig gwybodaeth lawn ar gynnydd eu plant ac maent yn bodloni gofynion statudol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn un hapus iawn lle teimla'r disgyblion yn ddiogel. Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo'n dda gan glybiau chwaraeon amrywiol a siop ffrwythau ddyddiol. Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o gymorth gwasanaethau arbenigol allanol gan gynnwys y gwasanaethau lles addysg, meddygol ac argyfwng ac mae'r disgyblion yn elwa o'r profiadau hyn. Mae gan yr ysgol systemau priodol i barhau i hyrwyddo presenoldeb da.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda trwy gynllunio ystod eang o brofiadau.

Mae'r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar gan yr athrawon ac mae cynlluniau addysg unigol o ansawdd da ar eu cyfer. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r disgyblion, y rhieni a'r asiantaethau arbenigol priodol.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae ethos cynhwysol a chyfeillgar iawn yn yr ysgol ac mae'r gymuned yn un glos a chroesawgar. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ddeall a pharchu pobl eraill o gefndiroedd amrywiol ac mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n sicrhau cyfle cyfartal i bob un ac sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Gwneir defnydd pwrpasol o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu. Mae ystafelloedd dosbarth lliwgar, gydag adnoddau priodol ar gyfer dibenion y cwricwlwm. Mae arddangosfeydd graenus o safon uchel ar draws yr ysgol sy'n symbylu'r dysgu. Dangosant enghreifftiau da o waith a llwyddiannau'r disgyblion. Caiff y safle a'r adeilad eu cadw'n lan a graenus.

| | |
|--|-----------|
| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|--|-----------|

Arweinyddiaeth: Da

Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer yr ysgol yn glir, ac wedi ei rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion, staff a'r corff llywodraethol. Maent i gyd yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod yr ysgol yn codi a chynnal safonau.

Mae'r pennaeth, y dirprwy bennaeth a'r tîm rheoli uwch yn cynnig arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn ac effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu

hunain ac o weddill staff yr ysgol, ac maent yn cymryd perchnogaeth lawn o'u cyfrifoldebau unigol.

Mae'r tîm rheoli uwch yn dadansoddi data perfformiad yn drylwyr ac yn defnyddio'u canfyddiadau'n effeithiol i fonitro perfformiad ac i gefnogi proses hunanarfarnu'r ysgol.

Mae strwythur tynn o gyfarfodydd rheolaidd ac amrywiaeth o dimau a systemau cyfathrebu mewnol cadarn, sy'n sicrhau bod pob agwedd o waith yr ysgol yn cael ei thrafod yn drylwyr. O ganlyniad, mae'r athrawon yn cael cyfleoedd da i gyfrannu at amrywiol agweddau o reoli ac arwain ar draws yr ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion tebyg, ac maent yn herio arweinyddiaeth yr ysgol yn briodol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae wedi gweithredu'n llwyddiannus i wella safonau llythrennedd, mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae asesu ar gyfer dysgu yn rhan annatod o'r dysgu.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r prosesau hunanarfarnu a'r disgwyliadau uchel ymysg athrawon a'r llywodraethwyr yn cael dylanwad cadarnhaol ar hybu safonau uwch ar draws yr ysgol.

Mae'r broses o fonitro'r cwricwlwm a'r medrau yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r broses o godi safonau. Mae pwyslais priodol ar fonitro safonau yn ogystal â'r ddarpariaeth ac mae'r materion i'w datblygu yn cael eu hystyried yn ofalus gan y pennaeth a'r corff llywodraethol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn eglur a dadansoddol. Defnyddir ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r barnau gan gynnwys data perfformiad, barn rhieni a disgyblion, monitro gwaith, arsylwi gwersi a barn swyddogion gwella'r awdurdod lleol. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen weithredol ac mae'r blaenoriaethau yn cyd-fynd â'r materion a nodwyd yn yr hunanarfarniad. Mae'r cynllun datblygu yn gosod targedau mesuradwy a chyllideb benodol i sicrhau gwelliant.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref. Mae ystod eang o gyfleoedd da i staff wella eu medrau a'u gwybodaeth broffesiynol ac mae athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi, arwain a rhannu arfer dda. Mae uwch staff yn datblygu eu medrau arweinyddiaeth yn briodol ac mae hyn yn arwain at wella ansawdd. Yn ychwanegol, mae rhwydwaith diweddar y teulu o ysgolion wedi bod o gymorth i ddatblygu strategaethau llythrennedd effeithiol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ystod o bartneriaethau. Ceir cydweithio cryf gyda rhieni'r ysgol i gynyddu adnoddau'r ysgol, trwy'r gymdeithas

rieni ac athrawon. Mae cyswllt effeithiol rhwng yr ysgol a rhieni disgyblion sydd ar fin dechrau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol gyswllt clos gyda'r gymuned. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o ymweliadau oddi ar safle'r ysgol ynghyd â chroesawu ymwelwyr i siarad am eu gwaith.

Mae partneriaethau priodol gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith bositif ar ddatblygiad lles a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r gydberthynas gyda'r gwasanaethau gofal, yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r Bartneriaeth Addysg a Busnes yn effeithiol.

Mae cydweithrediad agos gydag ysgolion cynradd lleol ac mae'r gweithgarwch gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn sicrhau pontio llwyddiannus i'r disgyblion sy'n eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae trefniadau effeithiol i safoni a chymedroli asesiadau athrawon ac i sicrhau trosglwyddo esmwyth.

Rheoli adnoddau: Da

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu ac mae'r staff ategol yn cefnogi'r addysgu a'r dysgu ar draws yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad yn briodol, ond nid yw'r staff ategol yn rhan o'r broses. Mae rheolwyr yn sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant addas, sy'n ateb anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol yn llawn.

Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion sy'n ymwneud â baich gwaith athrawon. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion ac i arsylwi arfer dda.

Mae is-bwyllgor cyllid yr ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'r tîm rheoli uwch a'r llywodraethwyr yn clustnodi digon o arian i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r gwelliannau y tu fewn a thu allan i'r adeilad wedi creu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol, sydd wedi cael effaith arwyddocaol ar agweddau'r disgyblion tuag at eu hysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn 2012, roedd cyflawniadau'r disgyblion yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer medrau iaith Cymraeg, yn y 50% uchaf o ran medrau mathemategol ac yn y 50% isaf o ran medrau iaith Saesneg a phersonol. Roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwylidig yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru heblaw am y Gymraeg.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwylidig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad yn 2012 yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Mae'r tuedd yn gyffredinol ar i fyny dros y pedair blynedd ddiwethaf. Dros gyfnod roedd yn is na'r teulu ond yn uwch yn y ddwy flynedd ddiwethaf. O gymharu canlyniadau'r ysgol ar gyfer y canran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwylidig ag ysgolion tebyg o ran disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 25% uchaf ar gyfer y Gymraeg, yn y 50% uchaf ar gyfer Saesneg a mathemateg ac yn y 50% isaf o ran gwyddoniaeth. Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r tueddiadau wedi amrywio tipyn o'r 25% isaf i'r 25% uchaf.

Yn 2012, roedd y canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwylidig yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y ddwy iaith, yn is mewn mathemateg ac yn uwch mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, cyn hynny yn gyffredinol roedd y canrannau yn is na'r teulu. Mae'r canran sy'n cyflawni'n uwch na'r lefel ddisgwylidig yn uwch na chyfartaledd y teulu yn y ddwy iaith, yn is mewn mathemateg ac yn uwch mewn gwyddoniaeth.

Dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol, yn gyffredinol mae'r merched yn perfformio llawer gwell na'r bechgyn.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Ymatebodd 60 o rieni i'r holiaduron. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn o ystyried y cyfartaleddau ar gyfer ysgolion ar draws Cymru.

Dywed pob rhiant:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn wedi cael cymorth i ymsefydlu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol; a
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol.

Dywed bron pob rhiant bod:

- eu plant yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- yr addysgu'n dda;
- bod gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed a gwneud eu gorau;
- eu plant yn cael eu hannog i gadw'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu plant yn ddiogel yn yr ysgol;
- yr ysgol yn helpu eu plant i fod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae rhan fwyaf y rhieni yn cytuno bod:

- disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod eu plant yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;
- bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- bod yr ysgol yn rhoi gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant yn yr ysgol;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed llawer eu bod:

- yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Llenwyd yr holiaduron dysgwyr gan 109 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae bron pob disgybl yn cytuno eu bod yn teimlo'n ddiogel a bod yr ysgol yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio. Maent oll yn gwybod at bwy i droi yn achos gofid neu i holi am gyngor. Maent i gyd yn cytuno bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach a bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo bod yr athrawon yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd a bron pob disgybl yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Mae bron pawb yn dweud bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwneud eu gwaith. Maent i gyd o'r farn fod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r farn fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith a bod plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

| | |
|---------------------|-----------------------|
| David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Lona Jones Campbell | Arolygydd Cymheiriaid |
| Beti Wyn James | Enwebai'r Ysgol |

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|-----------|----------|--------|-----|-----|-----|-----|------|-------|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|-----------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|-------|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|--------------------|--|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.